Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwella'r cyngor ar gyfer cynllunio ac adeiladu llwybrau cerdded, olwynio a beicio newydd

Beth mae pobl wedi ei ddweud



WG55492
ISBN 978-1-80853-542-0

Tachwedd 2026

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Ymgynghoriad ar Ganllawiau Deddf Teithio Llesol wedi'u diweddaru – adroddiad ymgynghori.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

Gwefan:
llyw.cymru/canllawiau-ddeddf-teithio-llesol

Ebost:
TeithioLlesol@llyw.cymru

Gwnaeth Hawdd ei Ddeall Cymru y ddogfen Hawdd ei Ddeall hon. Cliciwch yma i ddweud wrthym beth yw eich barn.

Cynnwys

Am yr adroddiad yma 4

Beth mae pobl wedi ei ddweud 8

Llwybrau defnydd sy'n cael eu rhannu 8

Mynedfa ffordd ochr gyfun 14

Llwybrau beicio mewn arosfannau bysiau 17

Cynllunio ac adeiladu llwybrau teithio llesol 22

Gwneud y canllaw yn haws ac yn gynhwysol 25

Creu lleoedd 27

Y Gymraeg 30

Sylwadau eraill 31

Beth sy'n digwydd nesaf 33

Am yr adroddiad yma



Y llynedd, fe wnaeth **Trafnidiaeth Cymru** wneud arolwg i ni, Llywodraeth Cymru.



Roedd yr arolwg yn gofyn am ein canllawiau ar gyfer cynllunio ac adeiladu **llwybrau** ar gyfer **teithio llesol**.



Mae **teithio llesol** yn meddwl **cerdded**, **olwynio** neu **feicio** yn rhywle.



Mae **llwybrau** yn meddwl y llwybrau rydych chi'n gallu eu defnyddio ar gyfer pethau fel cerdded, olwynio a beicio.



Cerdded – Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n cerdded neu'n rhedeg.



Olwynio - Mae hyn yn meddwl pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, sgwteri neu gymhorthion symudedd olwynion eraill. Mae hefyd yn gallu meddwl gwthio cadair wthio neu drol llaw, neu dynnu bag olwynion.



Beicio – Defnyddio beic.



Mae'n gallu cynnwys defnyddio bysiau neu drenau ar gyfer rhan o'ch taith. Ac yna **cerdded**, **olwynio** neu **feicio** ar gyfer rhan arall o'ch taith.



Mae teithio llesol yn ein helpu i leihau defnydd car. Mae'n iachach i bobl ac yn well i'r blaned.



Fe fydd ein canllawiau yn helpu pobl i gynllunio a dylunio llwybrau ar gyfer teithio llesol.



Mae fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r arolwg yma: [Canllawiau Deddf Teithio Llesol (ATAG) | LLYW. CYMRU](#).

Mae hyn yn dweud mwy am beth roedden ni'n feddwl sydd angen ei newid.



Mae'r adroddiad yma am beth mae pobl wedi ei ddweud, a beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf.



Fe wnaethon ni gael 165 o ymatebion gan bobl, sefydliadau a grwpiau.



Roedd llawer o gefnogaeth i'r canllaw newydd. Rhoddodd pobl syniadau i ni hefyd am newidiadau oedd eu hangen.



Rydyn ni hefyd eisiau gwella **hygyrchedd** a **chynhwysiant**.



Mae **hygyrchedd** yn meddwl bod rhywbeth yn gallu cael ei ddefnyddio'n hawdd gan unrhyw un. Beth bynnag ydy'r anghenion sydd ganddyn nhw.



Mae **cynhwysiant** yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan a does neb yn cael eu gadael allan.

Beth mae pobl wedi ei ddweud

Llwybrau defnydd sy'n cael eu rhannu



Mae llwybrau defnydd sy'n cael eu rhannu yn cael eu defnyddio gan bobl sy'n cerdded, yn olwynio ac yn beicio.



Roedden ni eisiau i lwybrau defnydd sy'n cael eu rhannu fod yn fey llydan os ydyn nhw'n cael eu defnyddio gan hyd at 300 o bobl sy'n beicio yr awr.



Roedd pobl eisiau cyngor cliriach am pryd mae llwybrau defnydd sy'n cael eu rhannu yn gallu cael eu defnyddio.



Fe ddywedodd pobl bod rhannu'r un gofod yn gallu achosi problemau i bobl sy'n defnyddio'r llwybrau.



Roedd cefnogaeth gref i lwybrau ar wahân lle mae hyn yn bosibl.



Mae llwybrau sy'n cael eu rhannu yn anodd eu defnyddio mewn ardaloedd prysur. Dydyn nhw ddim chwaith yn gweithio'n dda i bobl anabl, cerddwyr cŵn a grwpiau eraill.



Roedd gan bobl farn wahanol am ddefnyddio **coed penderfynu** i benderfynu a fydd llwybrau sy'n cael eu rhannu yn gweithio.



Mae **coed penderfynu** yn ganllawiau gweledol sy'n helpu pobl i wneud penderfyniadau. Dywedodd rhai pobl y byddai asesiad neu restr wirio yn gweithio'n well.



Roedd gan bobl farn wahanol am newid lled y llwybrau defnydd sy'n cael eu rhannu.



Roedd rhai pobl yn meddwl bod y syniad yn dda. Ond dywedodd rhai y byddai'n anodd ei wneud mewn rhai mannau.



Roedden nhw eisiau canllawiau cliriach am sut i wneud y newidiadau yma.



Fe ddywedodd pobl hefyd na fyddai llawer o bobl yn beicio.



Roedd hyn yn gallu meddwl bod mwy o sylw yn cael ei roi i ddinasoedd nag ardaloedd cefn gwlad.



Fe ddywedodd pobl fod angen i ni feddwl am niferoedd ar gyfer y dyfodol. Nid dim ond nawr.

Beth rydyn ni'n ei wneud



Fe fyddwn ni'n newid y **coed penderfynu** i ddefnyddio ffordd well o benderfynu pryd i gael llwybrau sy'n cael eu rhannu. Fe fydd yn cynnwys:



- Ceisio cael mwy o lwybrau ar wahân.



- Mwy o ffyrdd o weld sut mae llwybrau yn cael eu defnyddio a ble.



- Rhoi cyngor cliriach ar ffyrdd o ddelio â phroblemau fel llwybrau cul.



Fe fyddwn ni'n newid sut rydyn ni'n penderfynu am led llwybrau sy'n cael eu rhannu.



Rydyn ni'n credu y dylai fod llwybrau ar wahân lle mae mwy na 100 o ddefnyddwyr yr awr.



Fe fyddwn ni'n defnyddio niferoedd is i benderfynu ar gyfer cefn gwlad neu ardaloedd llai.



Rydyn ni hefyd yn meddwl am sut fyddai defnyddio llwybrau yn gallu newid yn y dyfodol.

Mynedfa ffordd ochr gyfun



Mae mynediad ffyrdd ochr gyfun yn lwybrau troed sy'n mynd ar draws ffyrdd ochr. Mae hyn yn meddwl bod angen i geir groesi'r llwybr troed i droi i mewn neu allan o ffordd ochr.



Fe ddywedodd pobl fod angen i'r ardaloedd yma fod yn fwy hygyrch.



Roedd pobl hefyd yn cytuno y dylai deddfau am yr ardaloedd yma fod yn gliriach. Er enghraifft, er mwyn helpu pobl â cholled golwg ddefnyddio'r ardaloedd yma yn ddiogel.



Roedd llawer o bobl yn meddwl y byddai **palmant cyffyrddol** yn helpu. Mae hwn yn fath o arwyneb ar y ddaear gyda bympiau neu linellau wedi'u codi. Mae'n helpu pobl sydd â cholled golwg i deimlo lle mae'n ddiogel cerdded neu groesi.



Fe ddywedodd rhai pobl na fyddai hyn yn ateb pob problem. Fe fyddai angen i yrwyr ddeall y rheolau.



Roedd pobl eisiau arweiniad cliriach ac enghreifftiau o opsiynau.



Cododd pobl bryderon hefyd am wneud yn siŵr bod gyrwyr yn dilyn y rheolau.

Beth rydyn ni'n ei wneud



Rydyn ni am ychwanegu bolardiau gyda phalmentydd cyffyrddol. Fe fydd hyn yn helpu i wneud pwyntiau croesi yn gliriach.



Fe ddylid defnyddio pethau fel palmant cyffyrddol a bolardiau mewn ffordd sy'n helpu i arafu traffig ger croesfannau.



Fe fyddwn ni'n gofyn i gynghorau lleol edrych ar sut mae'n cael ei ddefnyddio.



Rydyn ni wedi gwneud y canllawiau yn gliriach am pryd i ddefnyddio ffyrdd ochr cyfun.

Llwybrau beicio mewn arosfannau bysiau



Weithiau mae llwybrau beicio yn pasio'n uniongyrchol o flaen arosfannau bysiau. Mae angen i bobl groesi'r llwybr beicio i fynd ar neu oddi ar fws.



Mae hyn yn anodd i bobl anabl neu ddall.



Roedd llawer o bobl yn cytuno bod yr ardaloedd yma yn anodd eu defnyddio.



Roedd gan bobl farn wahanol ynghylch a oedd y newidiadau yn ddigon.



Fel arfer, fe ddywedodd pobl y dylai llwybrau beicio stopio mewn arosfannau bysiau.



Mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau i'r ffordd y mae'r meysydd yma yn gweithio fod yn gliriach.



Roedd pobl yn cefnogi gwneud pethau'n well. Er enghraifft, gyda phalmentydd cyffyrddol a marciau cliriach.



Roedd rhai pobl yn meddwl na fyddai'r newidiadau yma yn ddigon.



Roedd gan bobl farn wahanol am symud llwybrau beicio i ffwrdd o lwybrau bysiau.



Fe ddywedodd pobl ei bod yn glir pwy ddylai fynd gyntaf rhwng pobl sy'n cerdded, olwynio neu feicio.



Fe ddywedodd llawer o bobl y dylai fod llai o risg i ddamweiniau ddigwydd.



Roedd rhai grwpiau o bobl yn cael eu hystyried mewn perygl uwch o ddamwain.



Roedd pobl yn meddwl bod angen mwy o syniadau i wella arosfannau bysiau.

Beth rydyn ni'n ei wneud



Rydyn ni wedi gwneud **coed penderfynu** newydd yn barod ar gyfer sut i ddylunio arosfannau bysiau.



Mae hyn yn ei gwneud hi'n gliriach sut y dylai llwybrau beicio weithio mewn arosfannau bysiau. Fe ddylai hyn wneud llwybrau croesi yn fwy diogel i bobl ddall ac anabl.



Mae hefyd yn helpu i leihau cyflymder beicio ger arosfannau bysiau. Ac mae'n ei gwneud hi'n gliriach iddyn nhw wybod ble i stopio.



Mewn rhai mannau fe fydd pobl sy'n beicio yn gallu osgoi arosfannau bysiau yn llwyr.



Fe fydd drysau bws yn agor mewn ardaloedd gyda phalmentydd cyffyrddol.



Fe fydd yn gliriach ble mae palmant cyffyrddol.



Fe fydd yn haws deall lle mae angen i bobl aros neu groesi.

Cynllunio ac adeiladu llwybrau teithio llesol



Rhaid i bobl sy'n cynllunio a dylunio llwybrau gysylltu llwybrau ar gyfer cerdded, olwynio a beicio.



Mae'r canllaw yn rhoi cyngor ar ba fathau o lwybrau y dylid eu defnyddio ar wahanol fathau o ffyrdd.



Roedd pobl yn hoffi'r newidiadau i'r canllaw a sut mae'n gliriach.



Ond roedd pobl hefyd yn meddwl bod angen i rai meysydd fod yn haws i'w deall.



Roedd pobl yn aml yn cytuno â'r syniadau oedd wedi eu rhoi i helpu i wella llwybrau.



Ond roedd pobl eisiau cyngor cliriach am pryd i ddefnyddio rheolau gwahanol.



Roedd pobl yn ddryslyd am sut roedd cyflymderau ffyrdd yn cael eu defnyddio yn y canllaw.

Beth rydyn ni'n ei wneud



Rydyn ni wedi newid y canllaw i wneud amodau cyflymder yn haws i'w deall.



Rydyn ni wedi gwella'r cyngor am sut y dylid dylunio arosfannau bysiau. Fe fydd hyn yn helpu i'w gwneud yn fwy diogel ac yn well i bawb.



Mae'r canllaw nawr yn gwneud dewisiadau am ddylunio ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd yn haws i'w gwneud.

Gwneud y canllaw yn haws ac yn gynhwysol



Roedd pobl yn falch y byddai'r canllawiau yn fwy hygyrch a chynhwysol.



Mae hyn yn meddwl y dylai mwy o bobl allu deall a defnyddio'r canllaw.



Ond roedd pobl hefyd yn dweud bod y canllaw yn dal yn rhy anodd. Gan ei fod wedi'i wneud ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn cynllunio teithio llesol.



Roedd pobl yn hoffi'r defnydd o eiriau fel pobl yn cerdded, olwynio a beicio.



Roedd pobl hefyd yn teimlo bod y canllaw yn meddwl am anghenion mwy o grwpiau o bobl.

Beth rydyn ni'n ei wneud



Rydyn ni wedi gwella'r canllaw i'w wneud yn haws i'w ddefnyddio i bobl ag anghenion synhwyraidd.



Efallai y byddwn ni'n gwneud mwy o adnoddau ar-lein i gefnogi'r canllaw yn y dyfodol.



Gallai'r rhain helpu pobl i ddeall y canllaw yn fwy.

Creu lleoedd



Mae creu lleoedd yn meddwl gwneud lleoedd yn braf ac yn gweithio'n dda i bobl. Er enghraifft, mae'n gallu meddwl:



- Ychwanegu meinciau lle mae pobl yn gallu eistedd a gorffwys.



- Ychwanegu lluniau gan artistiaid lleol i ychwanegu lliw.



- Ychwanegu planhigion fel coed a blodau.



Mae yna gynllun am hyn yng Nghymru o'r enw Siarter Creu Lleoedd Cymru.



Mae rhan yn y canllaw newydd am wneud lleoedd.



Mae'n dweud sut mae cynlluniau yn gallu creu lleoedd i gefnogi teithio llesol.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno y gallai creu lleoedd helpu gyda theithio llesol.



Er enghraifft, mae teithio llesol yn gallu helpu i wneud llwybrau mwy diogel i'r ysgol.



Nod y canllaw newydd ydy gweithio'n agosach gyda chynlluniau creu lleoedd.

Beth rydyn ni'n ei wneud



Fe fyddwn ni'n parhau i feddwl am wneud lleoedd pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau am deithio llesol.

Y Gymraeg



Roedd llai o ymatebion i gwestiynau am yr iaith Gymraeg.



Doedd y rhan fwyaf o bobl ddim yn poeni y byddai'r canllaw yn effeithio ar yr iaith Gymraeg.



Roedd rhai pobl yn meddwl y gallai teithio llesol gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Er enghraifft, gallai roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Sylwadau eraill



Fe ddywedodd rhai pobl bod y cwestiynau yn cynnwys mwy na dylunio llwybrau teithio llesol. Er enghraifft, oedd y canllaw yn gallu cael ei orfodi ai peidio.



Fe ddywedodd pobl bod y canllaw yn gallu bod yn anodd ei ddilyn weithiau. Er enghraifft, fe fydd yn anodd gwella teithio llesol mewn rhai ardaloedd.



Fe ddywedodd rhai pobl bod yn rhaid i bobl barhau i gymryd rhan. Pobl anabl a'r rhai sydd ag anghenion hygyrchedd.



Fe ddywedodd rhai pobl nad oedd marchogion wedi cael eu hystyried. Ond dydy marchogaeth ddim wedi'i gynnwys yn y ddeddf teithio llesol.



Fe ddywedodd ychydig o bobl y dylai rhywfaint o arian ar gyfer teithio llesol fynd i'r GIG. Ond roedd yr arolwg yma am y canllawiau, nid cyllid teithio llesol.


Beth sy'n digwydd nesaf



Mae beth mae pobl yn feddwl wedi ein helpu i ddeall beth sydd angen i ni ei wneud nesaf.



Fe wnaethon ni weld fod pobl yn cefnogi'r canllaw wedi'i ddiweddaru. Fe wnaethon nhw hefyd ddangos i ni sut y gallen ni wneud y canllaw yn gliriach ac yn haws i'w ddefnyddio.



Fe wnaeth beth mae pobl yn feddwl ein helpu i feddwl am sut y nae'r canllaw yn gallu cael ei ddefnyddio mewn bywyd go iawn yng Nghymru. Fe wnaethon ni newid y canllawiau terfynol yn seiliedig ar adborth pobl.



Mae beth mae pobl yn feddwl wedi helpu i lunio sut rydyn ni'n cynllunio ac yn adeiladu llwybrau teithio llesol.